



Springboard

Business Innovation Centre ~ Wales
Canolfan Arloesi Busnes ~ Cymru



Parc Llantarnam
Cwmbrân
Torfaen
NP44 3AW

Ffôn: 01633 647800

www.southwalesbusiness.co.uk

Springboard – Ffeithiau Sydyn

- Datblygwyd Springboard fel menter ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Llywodraeth Cymru.
- Agorwyd Springboard ym mis Ionawr 2006 fel canolfan arloesi sy'n sefyll ar ei phen ei hun.
- Mae Springboard wedi ei lleoli ym Mharc Llantarnam, Cwmbrân, De Cymru ac felly mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu rhagorol - dim ond 4 munud o draffordd yr M4, cyffordd 25a o'r Dwyrain a chyffordd 26 o'r Gorllewin.
- Mae Springboard yn adeilad o ansawdd uchel a chanddo dri llawr sy'n ymestyn dros 2,340 metr sgwâr, ac mae yma 33 o unedau busnes, derbynfa, ystafell reoli ac ardaloedd trafod modern.
- Mae'r unedau busnes yn amrywio o 20 metr sgwâr (210 tr. sgwâr) i 105 metr sgwâr (1,126 tr. sgwâr) ac maen nhw ar gael ar delerau i-mewn-yn-hawdd ac allan-yn-hawdd. Yn ogystal, gall Springboard ddarparu cyfleusterau cydweithio ac mae'n cynnig cefnogaeth 'glanio llyfn' i gwmnïau sy'n dymuno llwybr i mewn i farchnad Cymru/Y DU.
- Mae gan Springboard ddewis o gyfleusterau cynadledda o ansawdd uchel, gan gynnwys ystafelloedd cyfarfod, ystafell y bwrdd ac ardaloedd trafod modern sydd ar gael i bob cwmni sydd wedi ei leoli yma.
- Ym Mharc Llantarnam, ceir amrywiaeth eang o ofodau busnes o ansawdd uchel sydd ar gael i gwmnïau unwaith fyddan nhw'n tyfu'n rhy fawr i gyfleusterau Springboard.
- Mae Springboard yn gartref i fusnesau technoleg ar draws amrywiaeth eang o sectorau, gan gynnwys busnesau TGCh, datblygu meddalwedd, telathrebu, amlgyfrwng, electroneg a pheirianeg.

Ystafelloedd Magu Busnes

Mae gan Springboard 33 ystafell magu busnes sy'n amrywio o ran maint o 20 metr sgwâr (210 tr. sgwâr) i 105 metr sgwâr (1,126 tr. sgwâr). Ymhob ystafell mae yna fynedfa y gellir ei chloi, ffenestri gwydr dwbl, goleuadau sy'n gweithio ar synhwyrdd, gwres canolog, larwm ddiogelwch a charped.

Cynigir yr unedau busnes ar gytundeb tenantiaeth 12 mis sy'n cynnwys telerau i-mewn-yn-hawdd ac allan-yn-hawdd – gall y cwmnïau sydd wedi eu lleoli yma roi mis o rybudd i adael ar unrhyw adeg trwy gydol cyfnod y cytundeb.

Mae'r adeilad i gyd wedi'i alluogi i fod yn ddiwifr ac mae yna fynediad i VPN i'r cwmnïau sydd wedi eu lleoli yma.

Mae'r cwmnïau sydd wedi eu lleoli yma'n cael defnyddio'r holl ystafelloedd cyfarfod yn rhad ac am ddim (os ydynt ar gael).

Ceir mynediad i'r adeilad 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

Lle i Gydweithio

Un arall ar restr Springboard o gyfleoedd ar gyfer eich busnes yw'r lle i gydweithio.

Bydd ein gofod modern, cynllun-agored a ailwampwyd yn ddiweddar yn rhoi gwefr newydd a chyffrous i chi yn hytrach na gweithio gartref.

Efallai eich bod yn defnyddio desg boeth am y dydd neu'n rhentu desg barhaol yn ein lle i gydweithio. Beth bynnag yw'ch sefylfa, mae pob peth yma'n barod ar eich cyfer. Mae ein tîm cymorth arbenigol wrth law i sicrhau bod pob manylyn yn ei le i chi, er mwyn i chi ganolbwyntio ar gyflawni eich gwaith gorau.

Mae defnyddwyr y lle i gydweithio yn cael gostyngiad o 50% oddi ar gost pob ystafell gyfarfod (os ydynt ar gael) a mynediad i'r adeilad 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

Costau

Mae Springboard yn codi £25 y tr. sgwâr y flwyddyn (heb gynnwys TAW) am yr ystafelloedd magu busnesau.

Gwasanaethau sydd Wedi eu Cynnwys

- ❖ Gwres canolog
- ❖ Trydan
- ❖ Trethi dŵr
- ❖ Yswiriant ar gyfer yr Adeilad
- ❖ Mannau parcio (os ydynt ar gael)
- ❖ Larwm ddiogelwch a goruchwyliaeth camera teledu cylch cyfyng
- ❖ Monitro diogelwch y tu allan i oriau arferol
- ❖ Gwasanaeth derbynfa i ymwelwyr (o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- ❖ Cysylltedd band eang cyflym (VPN)
- ❖ Cysylltedd diwifr
- ❖ Gwasanaeth neges llais
- ❖ Glanhau ardaloedd cymunol
- ❖ Tirlunio a chynnal a chadw'r tir

Gwasanaethau sydd Heb eu Cynnwys

- ❖ Ardrethi Annomestig
- ❖ Glanhau ystafelloedd busnesau unigol
- ❖ Yswiriant ar gyfer y swyddfa
- ❖ Mannau Gwefru Cerbydau Trydan

Costau Ychwanegol

- ❖ Ffi gyfreithiol o £250 + TAW am baratoi'r cytundeb tenantiaeth
- ❖ Blaendal ad-daladwy cywerth ag un mis o rent
- ❖ Llungopio
- ❖ Postio/ffrancio
- ❖ Arlwyo

Arlwy Magu Busnesau

- ❖ Mynediad i'r adeilad 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos
- ❖ Cytundeb tenantiaeth 12 mis
- ❖ Cysylltedd band eang am ddim (VPN a diwifr)
- ❖ Parcio am ddim (64 man parcio a'r cyntaf i'r felin sy'n eu cael)
- ❖ Man Gwefru Cerbydau Trydan
- ❖ Derbynfya i ymwelwyr
- ❖ Rhannu'r gegin
- ❖ Defnyddio ystafelloedd cyfarfod yn rhad ac am ddim (os ydynt ar gael)
- ❖ Defnyddio'r ardaloedd trafod
- ❖ Mynediad at wasanaethau cymorth busnes

Meini Prawf Mynediad

Mae Springboard wedi cyflwyno meini prawf cyffredinol ar gyfer defnyddio'r cyfleuster, a defnyddir y meini prawf hyn fel canllaw wrth ddewis cwmnïau addas. Efallai na fydd eich cwmni'n bodloni'r holl feini prawf isod, ond buasem yn disgwyl i chi allu dangos rhai o'r canlynol o leiaf:-

Arloesol, a photensial mawr i dyfu

Mae Springboard yn helpu cwmnïau arloesol i dyfu'n gyflym. Fel arfer, mae cwmnïau'n defnyddio un o'n canolfannau am tua thair blynedd, ac erbyn hynny maen nhw'n barod i raddio.

Sector uwch-dechnoleg neu seiliedig-ar-wybodaeth

Mae Springboard yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r gallu i greu cwmnïau, a'u tyfu, o fewn y sectorau hyn.

Ecsbloetio Hawliau Eiddo Deallusol

Fel arfer, fe fydd cwmnïau'n ecsbloetio eu heiddo deallusol eu hunain neu eiddo deallusol trwyddedig.

Yn ymchwilio ac yn datblygu

Fel arfer, fe fydd cwmnïau Springboard yn ymchwilio i gynnyrch, prosesau a thechnolegau newydd ac yn eu datblygu. Rydym yn annhebygol o dderbyn cwmnïau sy'n hyfforddi neu'n ymgynghori yn unig.

Datblygu cysylltiadau academiaidd

Mae Springboard yn bartneriaeth sydd a chysylltiad agos ag adrannau prifysgolion. Gobeithiwn y bydd llawer o gwmnïau Springboard wedi datblygu cysylltiadau gydag academia, neu y byddant yn gwneud hynny.

Tîm rheoli medrus

Dylai'ch tîm rheoli fod yn gallu trafod ochr ariannol ac ochr fusnes y cwmni a dangos arbenigedd technolegol hefyd.

Adnabod eich marchnad

Disgwyliwn i chi fod wedi ymchwilio i'r farchnad mewn ffordd sy'n addas i'r cynnyrch, y broses neu'r dechnoleg yr ydych yn ei (d)datblygu.

Yn gynaliadwy yn ariannol

Dylai'ch cyfrifon a'ch amcanestyniadau llif arian amlinellu'r ffynonellau cyllid a refeniw sydd yn eu lle neu sy'n ddisgwyliedig. Rhaid iddynt hefyd ddangos dyheadau'r cwmni o ran cynaliadwyedd a thwf yn ystod ei gyfnod ar y safle.

Gwybod beth yw eich gofynion tra'ch bod chi yma

Gofynnwn i chi nodi pa elfennau o gymorth Springboard fydd eu hangen arnoch yn ystod eich cyfnod gyda ni.

Cyfnod yn amgylchedd Springboard

Bydd gofyn i chi ystyried strategaeth ymadael a datblygu dealltwriaeth dda o lwyddiant eich cwmni yn y tymor hirach.

Cynllun busnes sydd wedi'i sefydlu ac sy'n gredadwy

Dylai fod gennych gynllun busnes cynhwysfawr sy'n rhoi sylw i'r holl bwyntiau a restrir uchod.

Ystafelloedd Cynadledda a Chyfarfod

Mae'r cyfleusterau hyn **am ddim** i gwmnïau sydd wedi eu lleoli yn Springboard.

Spring 1 (Lle i hyd at 14 ar eu heistedd)	Diwrnod llawn £100.00 Hanner diwrnod£74.00
Spring 2 (Lle i hyd at 12 ar eu heistedd)	Diwrnod llawn £100.00 Hanner diwrnod£74.00
Ystafell y Bwrdd (Lle i hyd at 24 ar eu heistedd)	Diwrnod llawn £127.00 Hanner diwrnod£85.00

Taliadau Gwasanaeth

Swyddfa Gofrestredig	£250.00	+VAT
Cyfeiriad Post	£0.00	Am Ddim
Ffrancio	£0.15 - £0.50	yr uned a chost postio
Llungopïo	£0.20	y ddalen
Beindio	£0.50	y ddogfen
Lamineiddio	£0.20	y ddalen
Ffôn Cynadledda	Cost yr alwad	

Arlwyo

Bwyd bys a bawd yn dechrau	£5.00	yr unigolyn
Te a Choffi	£2.25	yr unigolyn

Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW (Ile'n berthnasol) ac maent yn dibynnu ar argaeledd.

Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd y Cyngor yn prosesu eich data personol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data. Am ragor o wybodaeth a mynediad at hysbysiadau preifatrwydd yn amlinellu sut y mae'r Cyngor yn trafod eich data personol, ewch i adran Diogelu Data gwefan y Cyngor - <http://www.torfaen.gov.uk> .